# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2017

Amser: 09.01 - 13.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4317

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Hefin David AC<br>John Griffiths AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Darren Millar AC<br>Julie Morgan AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Alistair Davey, Llywodraeth Cymru<br>Carol Shillabeer, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>Yr Athro y Fonesig Sue Bailey, Academy of Medical Royal Colleges |

| | |
|---|---|
| | Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru<br>Nia Evans, Cynghorydd Polisi Iechyd ac Iechyd Meddwl, Comisiynydd Plant Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Lywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb ddrafft.

2.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog i ddarparu nodyn ar:

- y broses a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i ganfod a yw'n briodol cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn hytrach nag Asesiad Effaith Integredig, yn enwedig yng nghyd-destun y Gyllideb Ddrafft;
- y rhagolygon cyllid ar gyfer rhaglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau'n Gyntaf; a
- rhagor o wybodaeth am dystiolaeth y Gweinidog am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda phum awdurdod lleol peilot a banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw mewn perthynas â gwerthuso canlyniadau Dechrau'n Deg.

## 3 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc – Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Carol Shillabeer a'r Fonesig Sue Bailey.

3.2 Cytunodd Carol Sillabeer i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- cyfeiriadur arfer gorau ar gyfer ffrwd gwaith Cydnerthedd, Llesiant a Blynyddoedd Cynnar, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar;
- gwybodaeth am gyfranogiad byrddau iechyd wrth gomisiynu darpariaeth eiriolaeth gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, ac a oes darpariaeth Cymru gyfan;
- faint o blant yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 26 wythnos ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, fesul bwrdd iechyd lleol;
- cyfraddau staffio presennol (WTE) a chyfradd swyddi gwag CAMHS arbenigol ym mhob Bwrdd Iechyd a sut mae'r ffigurau hynny wedi newid ers dechrau'r rhaglen ac ar draws gwahanol grwpiau;
- lefel buddsoddiad y Byrddau Iechyd ar gyfer ehangu darpariaeth therapïau seicolegol, faint o swyddi arbenigol WTE ychwanegol a grëwyd a beth yw effaith hyn ar wella mynediad at therapïau seicolegol;
- effaith cymorth y tu allan i oriau/mewn argyfwng ar leihau nifer y cleifion mewnol;
- data ar dderbyniadau i ofal cleifion mewnol fesul lleoliad cleifion mewnol, gan gynnwys adrannau damweiniau ac achosion brys, wardiau pediatrig a wardiau oedolion, a derbyniadau i ofal cleifion mewnol y tu allan i Gymru;
- gwybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Ngwent i leihau derbyniadau i adran damweiniau ac achosion brys.

## 4 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc – Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Comisiynydd Plant.

4.2 Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- ei gohebiaeth ag Ysgrifenyddion perthnasol y Cabinet ynghylch hyd a lled y gwaith partneriaeth rhwng T4CYP a rhaglenni diwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys copi o'r papur a gyflwynodd i grwpiau ymgynghorol T4CYPP a Donaldson;
- ei hymateb i *Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol* , sef Papur Gwyn Llywodraeth Cymru;
- crynodeb o unrhyw wybodaeth gwaith achos/astudiaethau achos y tynnwyd sylw ei swyddfa atynt mewn perthynas ag anawsterau plant a phobl ifanc wrth gyrchu gofal mewn argyfwng.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**5.1 Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant - llythyr yn dilyn y sesiwn graffu ar 20 Gorffennaf**

**5.2 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc - nodyn am yr ymweliadau ar 28 Medi**

## 7 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 - trafod y dystiolaeth a'r adroddiad ar y gyllideb ddrafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn. Caiff adroddiad drafft ei ddosbarthu i'r Aelodau.